

**Cyngor Cymuned Llanpumsaint**  
**Nodiadau Cyfarfod:02.10.2018**  
**Neuadd Goffa 8.00 y.h**

Presennol:Y Cyngorwyr ; Dylan Jones, Eirion Evans, Gethin Edwards, Arwel Nicholas, Danny Davies, Elfed Davies, Pamela Jones, Cyngorydd Sir, Irfon Jones.  
 Ymddiheuriadau: Derick Lock

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Cytunwyd eu bod yn gywir – AN & GE	
Materion yn Codi	<p><b>Bwrdd Iechyd Hywel Dda</b> – Gwybodaeth ychwanegol am y broses o benderfynnu pa newidiadau/gwelliannau I wneud I'r Wasanaeth. Ystadegau wedi eu crynhoi a'u dadansoddi, ond yr un penderfyniad wedi ei gymeryd eto.</p> <p><b>Trwsio heolydd</b> – Clerc wedi derbyn llythyr oddi wrth Tony Williams, Adran Priffyrdd y Cyngor Sir, a ddywed fod 541 o heolydd yn y Sir yn aros am wyneb newydd a bod Rhiw Graig 99fed ar y rhester. Fod llanw I'w osod ar ymyl yr heol yng Nghwm Hagar ac y byddai arwyddion o rhybudd yn cael eu gosod yno nes bod y gwaith yn cael ei wneud a bod arwyddbost Nebo angen ei drwsio. <b>IJ</b> yn cyflwyno llythyr oddi wrth Peter Morgan ynglyn a'r darn ar yr A484 lle mae'r goleuadau, oedd yn adrodd fod cynllunio I'w drwsio yn mynd yn ei flaen.</p> <p><b>Cyfarfod Cymdeithas yr Iaith</b> – Clerc wedi bod yn y Cyfarfod ac yn adrodd fod y Gymdeithas yn awyddus I greu swyddi da o fewn y Sir er mwyn atal ecsodus o'r Cymru ifanc I Loegr a Chaerdydd.</p> <p><b>Rhwystrau ar Rhiw Graig</b> – Clerc wedi cysylltu gyda PCSO Nicola Waters ynglyn a'r mater.</p>	
Gohebiaeth	Adroddwyd ar yr ohebiaeth ond nid oedd yna sylwadau.	
Cynllunio	Dim	
Materion Ariannol	<p><b>Trywydd</b>, cyfieithu, £54.00 ac nid £75.00 fel adroddwyd ar yr Agenda. Cytunwyd ei dalu;ED &amp; DD</p> <p><b>Cyflog y Clerc</b>, £130.60 – AN &amp; GE</p> <p>Adroddiad Banc - £6,624.10</p>	
UFA	<p>Gofynnwyd I'r Clerc geisio am wybodaeth ynglyn a newid noson Cyfarfod o'r Cyngor, a dywedwyd wrtho gan Sian Bowden o Un Llais Cymru mai gosod y mater ar Agenda'r cyfarfod nesa oedd yr unig ofyniad.</p> <p><b>AN</b> – Halen I'r blychau mewn da o bryd.</p> <p><b>GE</b> – Dim</p> <p><b>PJ</b> – Fod yna gyfarfod agored ynglyn a dyfodol Meddygfa Teifi; Clerc yn dweud iddo ysgrifennu atynt a chonsyrn Cyngor y Gymuned.</p>	

	<p>Olwyn car wedi chwalu, mwy na thebyg oherwydd yr heolydd anwastad. Dywedwyd wrthi I wneud cais am iawndal oddi wrth yr Adran Briffyrdd.</p> <p><b>EE</b> – Dŵr ar yr heol gerllaw Bryncene ar Rhiw Graig; angen delio gyda fe cyn daw rhew y gaeaf.</p> <p><b>IJ</b> – Dim</p> <p><b>ED</b> – Dim</p> <p><b>DD</b> – Rhiw Graig</p> <p><b>DJ</b> – Fod y clawdd ar ymyl y cae lle claddwyd sbwriel ers llawer dydd, ar yr heol o waelod Rhiw Graig sydd yn mynd I gyfeiriad Pentre Mawr, yn gordyfu.</p>	
Cyfarfod yn gorffen	8.55 yh	

<p>Cafwyd yn gywir : .....</p> <p>(Cadeirydd)</p> <p>Dyddiad : .....</p>	<p>Cafwyd yn gywir : .....</p> <p>(Ysgrifennydd)</p> <p>Dyddiad: .....</p>
--	--